

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Chwefror 2015

Presennol– Marion Bettenev Cadeirydd, Sian Godbert, Janet Charlton, Jim Boughton, Caerwyn Roberts, Clerk.

Ymddiheuriadau Gareth Wynne, Karen Pugh, Gwawr Jones, Meirion Owen, Terry Bullock, Gareth Parry
Cynghorydd Sir Conwy Elizabeth Roberts,

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Ionawr 2015

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Roedd SCHG Phil Gales yn bresennol a chyfeiriodd at ladrata o Maesnewyddion, a hefyd bod rhywun wedi dwyn coed tan o Tŷ Hyll. Nid oedd digwyddiad arall wedi bod yn y gymuned.

[1.1] Apêl Fferyllfa Boots

Nodwyd y copïau o ohebiaeth gan wahanol bobl yn gwrthwynebu'r apêl.

[1.2] Arwyddion/Poster/Di olwg

Cytunodd y Cyng Marion Bettenev anfon manylion trefnydd Ffair Hen bethau i'r clercc

[1.3] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed/Cais Cynnal a Chadw

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clercc bod yr arwydd yn ei le a bod trefniadau wedi ei gwneud i symud y garreg las.

[1.5] Materion Priffyrdd

Wal gyferbyn a gweryll fferm yr Hendre ar briffordd yr A5.. Nodwyd bod yr Asiantaeth Briffyrdd wedi cadarnhau y bydd contractor yn gwneud atgyweiriadau i'r wal.

[1.6] Cyhoeddiadau Awtomataidd Gorsaf Reilffordd Betws-y-coed

Dywedodd y clercc nad oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn gan y Rhwydwaith Reilffordd i lythyr y Cyngor Cymuned o gwynion ynglun y cyhoeddiadau awtomataidd o enwau gorsafoedd rheilffyrdd Cymraeg.

[1.7] Difrod/Balconi'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clercc nad oedd Gwyn Lloyd yn gallu gwneud y gwaith atgyweirio.
Y clercc i gesio rhywun arall.

[1.8] Tyllau yn y Ffordd

[a] Twll yn y ffordd gyferbyn a HSBC. Dywedodd y clercc bod y Cyngor Sir wed tynnu sylw'r perchennog i'r mater.

[c] Twll gyferbyn ar fynedfa i'r goedwig ger Dol Gethin. Deallwyd bod y Cyngor Sir wedi trwsio'r twll.

[1.9] Goleuadau Nadolig

Cyfeiriodd y clerc at amcan gost ar gyfer goleuadau Nadolig ychwanegol yn y pentref.

[a] Golau addurnol mawr lliwiog £379.00 yr un.

[b] Golau addurnol dim lliw £280.00 yr un.

[c] Y clerc i drefnu cael gwared a'r goleuadau rhaffau sy'n ddiffygiol

Y Brif Agenda

[2] Materion Cynllunio

Nodwyd yr apêl ganlynol.

Apêl ôl weithredol i gadw gwaith celf metel. Tir yn Ffordd yr Orsaf.

[2.1] Materion Ariannol

[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Ionawr 2015 2014.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ionawr 2015.

[c] Cyllideb 2015/3015

Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2016/16

[2.2] Pencampwriaeth y Byd Rhedeg Mynydd

Amlinellwyd y trefniadau gan Sara Jones Swyddog Marchnata Cyngor BS Conwy a'i chydweithwraig Melissa Davies. Nodwyd bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal o'r 12eg Fed hyd i'r 20fed, gydag agoriad swyddogol yng Nghae Llan ar y 11eg Fedi.

[2.3] Cymdeithas Twristiaeth Betws-y-Coed

Penderfynwyd adnewyddu'r hysbyseb ar gyfer y Rhaeadr Ewynnol yn y llyfryn twristiaeth. Y clerc i atgoffa'r gymdeithas bod angen hefyd taflenni map.

[2.4] Bryn-y-Bont

Penderfynwyd bwrw mlaen ac addurno'r bwthyn am y gost a gytunwyd o £2,200.00.

[2.5] Creu Swigod

Eglurodd y clerc bod y glaswellt ar y cae yn dirywio o ganlyniad i hylif o'r bwcedi ddiferu ar y cae. Y clerc i gysylltu gyda'r perchennog i ddweud bod rhaid gosod gorchudd ar y glaswellt o hyn ymlaen.

[2.6] Parc Cenedlaethol Eryri

Nodwyd bod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu cynnal diwrnod o hwyl yng Nghae Llan yn ystod mis Mehefin.

[2.7] Damwain Honedig/Ms K Tidswell

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Allianz Cornhill PLC yn amlinellu bydd y cwmni yn gwadu cyfrifoldeb am ddamwain [honedig] yn y Neuadd Goffa gan Ms Tidswell.

Cadeirydd_____